

Rhodfa'r Gorllewin / Excelsior Road – Gwelliannau Diogelwch Ar Y Ffyrdd

Disgrifiad o Gynniq y Cynllun

Mae'r cynllun uchod wedi'i ddatblygu er mwyn gwella diogelwch ar ein ffyrdd fel rhan o fenter Grant Diogelwch y Ffyrdd Llywodraeth Cymru. Ei nod yw lleihau nifer y damweiniau ar y ffyrdd, gwella hygyrchedd yn y gymuned ac annog mwy o gerdded a beicio. Yn ogystal â hyn, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r signalau traffig a'r ciwiau traffig ar Western Avenue.

Mae'r cynllun wedi'i gynhyrchu yn dilyn dadansoddiad sy'n nodi ardaloedd yn y ddinas sydd â nifer uchel o ddamweiniau ffordd. Y prif broblemau diogelwch ar y ffyrdd a nodwyd ar ddarn hwn y briffordd oedd cerbydau'n gyrru'n rhy gyflym, yn methu stopio mewn pryd (yn arwain at siyntio o'r cefn) ar yr A48 a bregusrwydd cerddwyr ar Excelsior Road. Mae digwyddiadau gyrwyr yn unig yn dominyddu'r A48 ac mae digwyddiadau cerddwyr yn dominyddu Excelsior Road. Yn gyffredinol mae llawer o wrthdrawiadau sy'n achosi mân anafiadau ac anafiadau difrifol i gerddwyr a gyrwyr.

Felly datblygwyd y cynllun hwn er mwyn:

Ei gwneud hi'n haws ac yn ddiogelach i gerddwyr groesi'r ffordd (Excelsior Road):

- Cyfleuster ar fwrdd arafu – lleihau cyflymder nesáu cerbydau a chynorthwyo defnyddwyr bregus,
- Croesfan twcan safonol (uwchraddio'r pelican presennol) er mwyn darparu ar gyfer beiciau. Sylwer bod y cyfleuster ar y brif gyffordd ar yr A48 y tu allan i gwmpas y cynllun hwn,
- I wneud yr ardaloedd defnydd a rennir yn gliriach; a
- Gwelliannau i'r droedffordd lle y bo'n bosibl er mwyn gweddu i'r arwynebau presennol a rennir.

Lleihau digwyddiadau sy'n perthyn i gyflymder ar y gyffordd (A48 – Rhodfa'r Gorllewin):

- Signalau ychwanegol/wedi'u huwchraddio – mae'n cynnwys polion estynedig i'w hystyried.
- Ystyried uwchraddio'r camera golau coch presennol gyda camera golau coch digidol gyda gallu 'cyflymder ar wyrdd' (mae gofyn am ragor o asesu a chysylltu â GanBwyll), a
- Signalau traffic/arwyddion rhybuddio am gyffyrdd a marciau ysgol ymlaen llaw.

Bydd y cynllun hwn yn cynnwys adeiladu cyfleuster croesfan i gerddwyr wedi'i huwchraddio gyda bwrdd arafu, uwchraddio'r offer signalau er mwyn gwella gwelededd signalau ac arwyddion rhybuddio/marciau ffordd.

Rhagwelir y caiff y cynllun ei ddatblygu yn 2017/18 a'i roi ar waith yn 2018/19 (yn amodol ar dderbyn y cyllid sydd ei angen).

Gwybodaeth ychwnaegol ynghylch mesurau rheoli traffig

Nodweddion Arafu Traffig. Mae'r term hwn yn cyfeirio at fesurau rheoli traffig ffisegol penodol sy'n gorfodi gyrrwyr i leihau cyflymder cerbydau. Mae'r rhain yn cynnwys twmpathau ffordd, clustogau arafu, byrddau arafu, rhwystrau culhau'r ffordd, rhwystrau igam-ogamu, pyrth arafu, cylchfannau a nodweddion tebyg eraill.

Bwrdd Arafu. Amrywiaeth yw hwn ar y twmpath arafu lle mae pen uchaf y rhan ddyrchafedig (y bwrdd) dros ddwy fetr o led. Mae hyn yn achosi llai o anesmwythdra i deithwyr bws gan fod yr ardaloedd codi a disgyn wedi eu gwahanu gan y darn dyrchafedig. Defnyddir y rhain weithiau ar y cyd â chroesfannau cerddwyr er mwyn lleihau cyflymder a gwneud y groesfan yn fwy gweladwy i yrwyr.

Ynys Draffig. Ardal yng nghanol y ffordd yw ynys draffig a amgylchynir gan gwrbiau fel na ellir gyrru cerbydau drosti ac fel arfer gosodir arwydd 'cadwch i'r chwith' neu folard goleuedig ar yr ynys. Defnyddir hon yn rhan o loches cerddwyr i greu croesfan gyfnodol, er mwyn rheoli symudiadau cerbydau wrth gylchfannau a chyffyrdd eraill. Gall math arbennig ymddangos yn debyg i gylchfan fach, ond heb unrhyw ffyrdd ochr.

Lloches Cerddwyr. Defnyddir yr ynysoedd traffig hyn mewn safleoedd lle nad oes nifer digonol o gerddwyr i gyfiawnhau croesfan sebra neu groesfan pâl. Maen nhw'n cynorthwyo cerddwyr i groesi'r ffordd gan adael i gerddwyr ystyried traffig o un cyfeiriad yn unig ac mae ganddynt bellter croesi llawer byrrach. Mae'r llochesi modern yn lletach na'r rhai blaenorol, ac o'r herwydd yn fwy addas ar gyfer cadeiriau olwyn a phramiau.

Cyrbau Gostyngedig. Hon yw'r groesfan cerddwyr symlaf oll, lle gostyngir y lefel rhwng y palmant a'r ffordd gymaint â phosibl er mwyn cynorthwyo defnyddwyr cadair olwyn, pramiau a defnyddwyr eraill sydd ag anawsterau symud. Gosodir pafin botymog arnynt i rybuddio defnyddwyr â nam ar eu golwg nad oes cwrw yn gwahanu'r llwybr cerdded oddi wrth y ffordd.

Croesfan Twcan. Croesfan debyg i groesfan pâl ond ei bod ar gyfer seiclwyr yn ogystal â cherddwyr. Y prif wahaniaeth i gerddwyr a seiclwyr yw'r symbolau crwn wrth ymyl y goleuadau dyn coch a dyn gwyrdd ar y botwm pwyso. Mae'r amser

croesi yn amrywio yn ôl cyflymder y cerddwyr yn croesi'r ffordd a gellir canslo'r cais i groesi os yw'r cerddwr neu'r seiclwyr yn symud o'r groesfan neu os yw wedi croesi'r ffordd cyn cael yr arwydd gwyrdd. Mae pob croesfan a reolir gan signalau yn cynnwys 'côn cyffyrddol sy'n cylchdroi' o dan yr uned pwysu botwm a ddefnyddir gan y rheiny sydd â nam ar eu golwg i ddynodi pryd bydd y traffig wedi cael golau coch.

Croesfan gyfnodol. Math o loches cerddwyr a ddefnyddir pan fo croesfan pâl, croesfan cerddwyr, neu groesfan twcan mewn dwy ran. Fel arfer, ceir rheilen warchod i gyfeirio cerddwyr drwy'r groesfan. Defnyddir y groesfan hon ar ffyrdd llydan ac wrth gyffyrdd mawr a reolir gan signalau.

Croesfan Cerddwyr. Croesfan cerddwyr a reolir gan signalau wrth oleuadau traffig. Ar gynlluniau newydd, mae'r arwyddion i gerddwyr fel arfer ar y botwm pwysu ond gallant fod ar signalau ar ochr arall y ffordd os oes angen. Mae pob croesfan a reolir gan signalau yn cynnwysi 'côn cyffyrddol sy'n cylchdroi' o dan yr uned pwysu botwm a ddefnyddir gan bobl sydd â nam ar eu golwg i ddynodi pryd bydd y traffig wedi cael golau coch.

Lleihau Gofod y Ffordd. Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod gyrwyr yn gyrru'n arafach os yw'r ffordd yn edrych yn gulach neu'n fwy cymhleth. Gelwir mesurau a gyflwynir i gyflawni'r effaith hwn yn leihau gofod y ffordd. Gellir gwneud hyn drwy roi marciau ar y ffordd, gan gynnwys lonydd seiclo, rhith-ynsoedd, ynysoedd traffig, rhwystrau ymwithiol a mesurau eraill, un ai ar eu pennau'u hunain neu mewn amrywiol gyfuniadau.

Camera Diogelwch (Cyflymder). Darperir y rhain gan y Bartneriaeth Camerâu Diogelwch leol a gellir eu defnyddio yn unig mewn lleoliadau sy'n bodloni meini prawf a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ni chânt eu hystyried yn nodweddion arafu traffig gan nad oes ganddynt unrhyw effaith ffisegol ar ymddygiad gyrru.

Bolard. Postyn a wneir o amryw ddeunyddiau ac a ddefnyddir i rwystro cerbydau rhag gyrru ar y llwybr troed neu ymyl y ffordd.

Bolard Goleuedig. Arwydd traffig wedi ei oleuo o'r tu mewn, sydd fel arfer â saeth 'cadwch i'r chwith' arno a osodir ar ynysoedd traffig er mwyn ei gwneud yn anghyfreithlon i yrwyr ei oddiweddyd ar yr ochr dde.

Llwybr a Rennir Mae'r llwybr troed hwn wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio gan gerddwyr a beicwyr. I sicrhau bod pob cerddwr a beiciwr yn gallu ei ddefnyddio heb drafferth, bydd y llwybrau hyn fel arfer yn dri metr o led a chânt eu nodi gan arwyddion a marciau ffordd. Mewn rhai sefyllfaoedd bydd y llwybr yn cael eu rhannu gyda cherddwyr ar un ochr a beicwyr ar yr ochr arall, ond mae angen llwybr lletach ar gyfer hyn a gall achosi problemau os nad yw'r defnyddwyr yn sylwi pa ochr y dylent ddefnyddio. Mae'r llwybr lletach o ddefnydd i ddefnyddwyr

cadeiriau olwyn, sgwteri symudedd a chadeiriau gwthio. Mae hefyd o fudd i feicwyr, yn enwedig y rhai sydd angen defnyddio beiciau tair olwyn neu ôl-gerbydau oherwydd oed neu anabledd ac i'r rheiny sy'n ifanc iawn neu sy'n feicwyr dibrofiad.




Arwyddion agosaf Dim ond ar yr ochr agosaf y bydd yr arwyddion gwyrdd (h.y. dim ond wrth y groesfan y bydd yr arwydd gwyrdd yn weladwy, ac nid ar ochr arall y ffordd). Mae gan y mathau hyn o groesfannau i gerddwyr y manteision canlynol:

1. Cedwir yr arwyddion traffig ar olau coch am gyfnod hwy os canfyddir bod cerddwyr yn croesi'r ffordd
2. Caiff yr arwydd golau gwyrdd ei ganslo os yw'r cerddwyr wedi croesi ac nad oes angen y goleuadau traffig coch mwyach

Bydd y nodweddion hyn yn gwella diogelwch ac effeithlonrwydd y gyffordd.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3250 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhwch wybod i ni erbyn **29/12/2017**.



The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.

Further details about this consultation are available at cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3250 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **29/12/2017**.